# Amserlen Penderfyniadau

## Is-bwyllgor Trwyddedu

**I BOB AELOD CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**Atodlen Penderfyniadau a gyhoeddwyd ar 14 Medi 2020**

Gwnaeth y Is-bwyllgor Trwyddedu y penderfyniadau canlynol ar 14 Medi 2020, a ddaeth i rym ar unwaith.

Cynghorwyr: J Hughes (Cadeirydd), Janet Cleverly, Kate Thomas

---

**LIC PAN 02/20**

**Penderfyniad**

**Cais o dan adran 17 o Ddeddf Trwyddedu 2003 am drwydded mangre mewn perthynas â Fair Price, 128 Heol Cas-gwent, Casnewydd, NP19 8EF**

Rhoddodd yr is-bwyllgor ystyriaeth i'r cais a'r dystiolaeth oedd ger eu bron yn ysgrifenedig ac ar lafar gan yr awdurdod trwyddedu. Nodwyd y sylwadau ysgrifenedig a wnaed gan Heddlu Gwent mewn perthynas â'r defnydd o deledu cylch cyfyng a materion eraill, a bod yr ymgeisydd wedi cytuno i'r holl amodau a diwygiadau a awgrymwyd gan yr heddlu.

Buont hefyd yn ystyried y 61 o sylwadau ysgrifenedig o'r un fath a wnaed gan aelodau o'r cyhoedd yn ymwneud â phryderon ynghylch yr effaith y byddai caniatáu'r cais yn ei chael ar ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardal. Fodd bynnag, nid oedd rhai o'r pryderon ynghylch effaith mangre drwyddedig ychwanegol yn yr ardal yn ymwneud â'r pedwar amcan trwyddedu ac felly nid oeddent yn berthnasol i benderfyniad yr is-bwyllgor.

Nododd yr is-bwyllgor hefyd fod yr ymgeiswyr wedi cytuno i werthu alcohol oddi ar y fangre, gan ddechrau am 9am bob dydd yn hytrach na 7am, fel yr oedd wedi ei gynnwys yn y cais.

Nododd yr is-bwyllgor, er bod ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi digwydd yn yr ardal, nad oedd hyn yn ymwneud â gwerthu alcohol o “siopau diodydd trwyddedig” ac nad oedd yn bryder i'r heddlu. Teimlent fod y diwygiadau a gynigiwyd gan yr heddlu ynghyd â gwerthu alcohol yn dechrau am 9am a'r gallu i adolygu'r drwydded pe bai angen yn ddigon i liniaru'r pryderon hyn.

Felly, penderfynodd yr is-bwyllgor ganiatáu'r cais gyda gwerthiannau alcohol yn cychwyn oddi ar y fangre o ddydd Llun i ddydd Sul rhwng 9am a 10pm a gyda'r amodau eraill a gynigiwyd gan yr heddlu.

## Penderfyniad

## Cais gan Greenwoodblue Limited o dan adran 17 o Ddeddf Trwyddedu 2003 am drwydded mangre mewn perthynas â Coffiology, 29 Stryd Fawr, Caerllion, Casnewydd, NP18 1AE.

Rhoddodd yr is-bwyllgor ystyriaeth i'r cais a'r dystiolaeth oedd ger eu bron yn ysgrifenedig ac ar lafar gan yr awdurdod trwyddedu. Clywsant gan ddau o bobl o gwmni'r ymgeisydd a darllenasant y sylwadau ysgrifenedig a lofnodwyd gan bedwar o drigolion lleol sy'n byw yn y fflatiau uwchben y fangre ac sydd wedi'u lleoli gerllaw.

Nododd y panel fod yr amcanion a godwyd gan yr awdurdod trwyddedu wedi'u derbyn gan yr ymgeisydd ac felly fe'u tynnwyd yn ôl. Roeddent yn teimlo bod y rhain yn cyfyngu ar effaith gwerthu alcohol yn y fangre ac yn ei atal rhag edrych fel tafarn trwy gyfyngu ar y niferoedd a allai yfed alcohol yn y fangre yn hwyrach gyda'r nos. Teimlent hefyd y byddai'r amodau hyn yn helpu i leihau problemau gyda sŵn o'r fangre drwy gyfyngu ar y niferoedd sy'n cyrraedd y fangre yn hwyrach gyda'r nos. Byddent hefyd yn lleihau sŵn wrth adael y fangre, gydag amser cau cynharach na'r mangreoedd cyfagos sy’n gwerthu alcohol.

Fodd bynnag, roedd y panel yn ymwybodol y byddai caniatáu'r drwydded yn debygol o gynyddu sŵn i drigolion lleol. Cawsant eu cysuro gan y mesurau i gyfyngu ar hyn a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd, a oedd yn cynnwys gosod camerâu teledu cylch cyfyng yn y fangre pe byddai trwydded yn cael ei rhoi.

Teimlai'r is-bwyllgor y dylai gosod teledu cylch cyfyng ar y fangre fod yn un o amodau'r drwydded, gan fyddai hyn yn galluogi'r awdurdod trwyddedu i wirio y cedwir at yr amodau a ychwanegwyd at y drwydded i leihau sŵn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Oherwydd hynny, caniataodd yr is-bwyllgor y cais gyda’r amodau a oedd wedi eu cynnwys yn y sylwadau a wnaed gan yr awdurdod trwyddedu a’r amod ychwanegol a ganlyn mewn perthynas â theledu cylch cyfyng:

Bydd teledu cylch cyfyng yn cael ei osod y tu mewn i'r fangre. Bydd y camerâu yn gwylio pob rhan tu fewn sy'n hygyrch i'r cyhoedd. Rhaid i'r gosodiadau dyddiad ac amser ar y system fod yn gywir a rhaid i'r system teledu cylch cyfyng allu recordio delweddau i gyfrwng addas sy'n caniatáu eu hailddangos. Rhaid cadw recordiadau am o leiaf 28 diwrnod. Rhaid i’r staff gael eu hyfforddi i gynnal a gweithredu'r system teledu cylch cyfyng a rhaid cadw cofnod o'r dyddiad ac enw'r unigolyn a hyfforddwyd. Dylai aelod hyfforddedig o staff fod ar ddyletswydd i weithredu'r system pryd bynnag y bydd y fangre ar agor. Rhaid i gofnodion fod ar gael i'w harchwilio gan yr heddlu ac awdurdodau cyfrifol eraill yn ôl y gofyn.

## Ymgynghoriad

**Gweithredir gan:** 14 Medi 2020
**Amserlen Weithredu:** Ar unwaith